



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Cofnod y Trafodion The Record of Proceedings

[Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu](#)

[The Culture, Welsh Language and
Communications Committee](#)

26/10/2017

[Agenda'r Cyfarfod](#)
[Meeting Agenda](#)

[Trawsgrifiadau'r Pwyllgor](#)
[Committee Transcripts](#)

Cynnwys Contents

- 4 Cyflwyniad, Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau
Introductions, Apologies, Substitutions and Declarations of Interest
- 5 Craffu Cyffredinol: Comisiynydd y Gymraeg—Adroddiad Blynyddol
General Scrutiny: Welsh Language Commissioner—Annual Report
- 50 Craffu Cyffredinol: Comisiynydd y Gymraeg—Adroddiad Sicrwydd
General Scrutiny: Welsh Language Commissioner—Assurance Report
- 81 Papurau i'w Nodi
Papers to Note
- 82 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i Benderfynu Gwahardd y Cyhoedd
o'r Cyfarfod
Motion under Standing Order 17.42 to Resolve to Exclude the Public
from the Meeting

Cofnodir y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y pwyllgor. Yn ogystal, cynhwysir trawsgrifiad o'r cyfieithu ar y pryd. Lle y mae cyfranwyr wedi darparu cywiriadau i'w tystiolaeth, nodir y rheini yn y trawsgrifiad.

The proceedings are reported in the language in which they were spoken in the committee. In addition, a transcription of the simultaneous interpretation is included. Where contributors have supplied corrections to their evidence, these are noted in the transcript.

Aelodau'r pwyllgor yn bresennol
Committee members in attendance

Hannah Blythyn Bywgraffiad Biography	Llafur Labour
Dawn Bowden Bywgraffiad Biography	Llafur Labour
Suzy Davies Bywgraffiad Biography	Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives
Sian Gwenllian Bywgraffiad Biography	Plaid Cymru The Party of Wales
Neil Hamilton Bywgraffiad Biography	UKIP Cymru UKIP Wales
Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography	Plaid Cymru (Cadeirydd y Pwyllgor) The Party of Wales (Committee Chair)
Jeremy Miles Bywgraffiad Biography	Llafur Labour
Lee Waters Bywgraffiad Biography	Llafur Labour

Eraill yn bresennol
Others in attendance

Guto Dafydd	Uwch Swyddog Cydymffurfio, Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg Senior Compliance Officer, Welsh Language Commissioner's Office
Meri Huws	Comisiynydd y Gymraeg Welsh Language Commissioner
Gwenith Price	Cyfarwyddwr Strategol, Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg Strategic Director, Welsh Language Commissioner's

Office

Dyfan Sion Cyfarwyddwr Strategol, Swyddfa Comisiynydd y
Gymraeg
Strategic Director, Welsh Language Commissioner's
Office

Swyddogion Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn bresennol
National Assembly for Wales officials in attendance

Osian Bowyer Y Gwasanaeth Ymchwil
Research Service

Steve George Clerc
Clerk

Lowri Harries Dirprwy Glerc
Deputy Clerk

Manon Huws Cynghorydd Cyfreithiol
Legal Adviser

Adam Vaughan Ail Glerc
Second Clerk

Dechreuodd y cyfarfod am 09:32.

The meeting began at 09:32.

Cyflwyniad, Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau
Introductions, Apologies, Substitutions and Declarations of Interest

[1] **Bethan Jenkins:** Diolch, a **Bethan Jenkins:** Thank you, and chroeso i'r Pwyllgor Diwylliant, y welcome to the Culture, Welsh Gymraeg a Chyfathrebu. Eitem 1, Language and Communications cyflwyniad, ymddiheuriadau, Committee. Item 1, introductions, dirprwyon a datgan buddiannau. A apologies, substitutions and oes gan unrhyw un rhywbeth i'w declarations of interest. Does any ddatgan yma heddiw o ran buddiant? Member have any declarations of Na. Mae Dawn Bowden wedi dweud ei interest today? No. Dawn Bowden has bod hi'n mynd i fod yn hwyr, ond nid said that she's going to be late, but oes unrhyw ymddiheuriadau eraill. there are no other apologies. Excuse

Sori am y llais.

my voice.

[2] Having a Theresa May moment again. [*Laughter.*]

[3] Croeso i Siân Gwenllian i'r pwyllgor sydd yn cymryd lle Dai Lloyd. Hoffwn i hefyd roi ar y record diolch i Dai Lloyd am ei waith ar y pwyllgor yma. Ond diolch hefyd i Siân nawr sydd yn ymuno â ni.

Welcome, Siân Gwenllian, to the committee, who's taking Dai Lloyd's place. I would also like to place on the record my thanks to Dai Lloyd for his work on this committee, and thank you also to Siân, who is now joining us.

Craffu Cyffredinol: Comisiynydd y Gymraeg—Adroddiad Blynyddol **General Scrutiny: Welsh Language Commissioner—Annual Report**

[4] **Bethan Jenkins:** Rydym yn symud ymlaen yn awr at eitem 2, sef gwaith craffu cyffredinol ar Gomisiynydd y Gymraeg a'i hadroddiad blynyddol. Croeso i Meri Huws, sef Comisiynydd y Gymraeg, ac hefyd i Dyfan Sion, cyfarwyddwr strategol. Mae yna gyfres o gwestiynau—rydych chi wedi bod yma o'r blaen—ar themâu gwahanol, ac felly, os yw'n iawn gyda chi, byddwn ni'n gofyn cwestiynau gan Aelodau, yn hynny o beth. Lle roeddwn i eisiau cychwyn, yn y lle cyntaf yn fras, yn amlwg, yw eich barn chi ar a yw'n amserol i adolygu a newid Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac i ddeall pa newidiadau deddfwriaethol y byddech chi'n hoffi eu gweld petaech chi'n meddwl bod angen newid hwnnw. Beth yw'ch barn chi ar hynny?

Bethan Jenkins: We move on to item 2, namely the general scrutiny of the Welsh Language Commissioner and the annual report. Welcome to Meri Huws, the Welsh Language Commissioner, and also to Dyfan Sion, strategic director. There are a series of questions—you have been here before—on different themes, so if it's okay with you, we'll ask questions from Members. So, I wanted to start, in the first place, generally, by asking you for your view on whether it's timely to review and change the Welsh Language (Wales) Measure 2011 and to understand what legislative changes you would like to see, if you thought there was a need for change. What are your views?

[5] **Ms Huws:** Iawn. Diolch yn fawr, a gadewch inni ddechrau, felly, gyda'r Papur Gwyn a gafodd ei

Ms Huws: Okay. Thank you very much, and let us start with the White Paper published over the summer.

gyhoeddi dros yr haf. Un peth liciwn i ddweud, mae yna nifer o egwyddorion liciwn i rannu gyda chi, wrth ein bod ni'n edrych ar y Papur Gwyn, ac rydw i'n credu mai'r peth cyntaf inni ddweud yw mai'n ddyddiau cynnar iawn o ran gweithredu Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011—prin chwe blynedd oddi ar sefydlu swyddfa'r comisiynydd a gweithredu'r ddeddfwriaeth. Felly, mae'n rhaid inni fod yn ofalus wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â newidiadau sylfaenol heb sicrhau bod y dystiolaeth yna efallai yn ei chyfanrwydd gyda ni ar hyn o bryd. Felly, dyna'r sylw cyntaf, bod angen inni fod yn ofalus ac ystyried pa mor gynnar yw hi o ran Mesur y Gymraeg.

One thing I would like to say, there are a number of principles I'd like to share with you as we look at that White Paper, and I think the first thing that I need to say is that it's very early days in terms of implementing the Welsh Language Measure (Wales) 2011—barely six years since the establishment of the commissioner's office and the implementation of the legislation. So, we need to be guarded in making fundamental changes without ensuring that that evidence is in place. So, that's the first comment I would make, is that we do need to be guarded, given how early it is in terms of the story of the Welsh language Measure.

[6] Yr ail beth sydd yn hollbwysig i fi, ac i ni, rydw i'n credu, yw, os ydym yn mynd i newid y ddeddfwriaeth, ac mi rydw i wedi dweud yn y gorffennol, mae yna elfennau o'r ddeddfwriaeth sydd yn fiwrocataidd, sy'n glogyrnaidd, sydd yn cael eu rheoli gan broses yn hytrach nag allbwn. Os oes modd i ni ystwytho rhywfaint ar yr elfennau hynny, buaswn i'n croesawu hynny, ond i wneud hynny mor llyfn â phosib. Rŷm ni'n dechrau gweld sefydliadau a'r cyhoedd yng Nghymru yn gweld cynnydd o ran y Gymraeg. Mae hwnnw'n braf i weld. Mae tystiolaeth gadarn gyda ni—byddwn ni'n edrych ar yr adroddiad sicrwydd nes ymlaen y bore yma—ac rŷm ni'n dechrau gweld newid. Mae'n rhaid i ni gynnal y momentwm yna. Pe

And the second crucially important thing for me, and for us, I think, is that if we are to change the legislation, and I have stated in the past that there are elements of the legislation that are bureaucratic and burdensome, and are process driven rather than output driven. Now, if we can relax some of those elements, I would welcome that, but we need to do that as smoothly as possible. We are starting to see organisations and the public in Wales seeing progress in terms of the use of the Welsh language. That's good to see. There is robust evidence—we will look at the assurance report later this morning—and we are starting to see change. We must maintain that momentum. If there is any fundamental structural change, there

buasai unrhyw newid sylfaenol, strwythurol, mae yna berig y buasem ni'n gweld arafu ar y broses, ansicrwydd ymysg sefydliadau, ansicrwydd ymysg y cyhoedd ynglŷn â beth sy'n digwydd—so, unrhyw newidiadau, mor llyfn â phosib i gynnal y momentwm.

is a risk that we would see that process slowing down, we would see uncertainty among organisations and the public in terms of what's happening. So, any changes have to be done as smoothly as possible in order to maintain the momentum.

[7] **Bethan Jenkins:** Pa drafodaethau ydych chi wedi cael gyda'r Gweinidog? Rydych chi'n sôn am y ffaith efallai ei fod yn gynnar. Pa drafodaethau ydych chi wedi eu cael gyda'r Gweinidog i ddweud y pethau hyn wrtho fe?

Bethan Jenkins: What discussions have you had with the Minister? You talk about the fact that perhaps it's early days. What discussions have you had with the Minister to say these things to him?

[8] **Ms Huws:** Rydw i'n credu, o ran trafod gyda'r Gweinidog, mae'n ddyddiau cynnar. Mi gawsom ni gyfarfod gyda'r Gweinidog ddoe—cyfarfod chwarterol arferol—ac mi fyddwn ni, wrth gwrs, yn ymateb yn llawn i'r Papur Gwyn. Fe fydd ein hymateb ysgrifenedig ni'n mynd i mewn wythnos nesaf. Rydw i'n hapus iawn i roi blas i chi o'r hyn y byddwn yn ei ddweud yn yr ymateb yna—y penawdau, y prif benawdau. Bydd yn ateb llawn iawn. Ond, fel y dywedais i, mi fyddwn ni'n dechrau gyda'r angen yma i gryfhau ac i fireinio, yn hytrach na newidiadau sylfaenol strwythurol, cyfansoddiadol.

Ms Huws: In terms of discussions with the Minister, it's early days. We had a meeting with the Minister yesterday—the usual quarterly meeting—and we will be responding in full to the White Paper. Our written response will be submitted next week. I'm more than happy to give you a flavour of what we will say in that response—the main headings. It'll be a very comprehensive response. But, as I said, we will begin with this need to strengthen and to enhance rather than making fundamental structural, constitutional changes.

[9] Prif benawdau, o ran y newid: fel sefydliad, rŷm ni yn credu bod modd rhoi cyfrifoldebau rheoleiddio, hybu a hyrwyddo o fewn yr un gyfundrefn, o fewn yr un sefydliad. Y manteision o wneud hynny, i'r

The main headings in terms of change: as an institution, we do believe that it's possible to place regulatory and promotion responsibilities within the same organisation. The benefits of doing

cyhoedd ac i'r sefydliad, yw: un man sydd ganddyn nhw i droi ato, yn hytrach na gorfod penderfynu, 'At bwy rydw i'n troi heddiw gyda'r cwestiwn yma?' Gwerth am arian: buaswn i'n dweud ei fod yn haws rhedeg un sefydliad yn hytrach na dau. A hefyd, i'r dinesydd, yn ogystal â'r sefydliadau, buaswn i'n dweud bod yna eglurder. Mae'n rhaid i mi ddweud, i'r cyhoedd mae cael sefydliad Comisiynydd y Gymraeg—rŷm ni'n cael y cwestiynau rhyfeddaf oddi wrth bobl o lot o wahanol gefndiroedd, ond maen nhw'n ei weld e fel man i droi, oherwydd ei fod yn dweud 'comisiynydd' a'r 'Gymraeg'.

that, for the public and for the institution, are that there is one port of all, rather than having to decide, 'Well, who do I go to today with this particular question?' There's also an issue of value for money. I would say that it's easier to run one organisation rather than two. Also, for the citizen, as well as the organisations involved, I think it does provide clarity. I have to say that, for the public, having a Welsh Language Commissioner's office—we receive the most incredible questions from people from all sorts of different backgrounds, but they do see it as a place where they can turn, because it does say 'Welsh language' and 'commissioner' and that's clear to them.

[10] O ran, wedyn, y cwestiynau sy'n codi ynglŷn â rheoleiddio a hybu a hyrwyddo o fewn yr un sefydliad, wel, ar sail profiad pum mlynedd, rŷm ni'n gwneud hynny i ryw raddau'n barod, ac mae yna faterion i'w hystyried, ond mae modd gwneud gyda'r llywodraethiant priodol. So, felly, o ymateb i'r Papur Gwyn, mi fyddwn ni'n dweud ein bod ni yn ffafrio un sefydliad—hybu a hyrwyddo a rheoleiddio. O wneud hynny, rŷm ni, wrth gwrs, yn ystyried y bydd angen edrych ar lywodraethiant y corff yna i sicrhau, yn benodol, bod arian cyhoeddus yn cael ei rannu mewn ffordd sydd yn dryloyw ac yn deg.

Now, in terms of the questions arising on regulation and promotion within the same organisation, well, on the basis of five years' experience, we do that to a certain extent already and there are issues to be considered, but it can be achieved with appropriate governance. So, in responding to the White Paper, we will be saying that we favour a single institution with responsibility for promotion and regulation. Now, in doing that, we, of course, do believe that we will need to look at the governance of that body in order to ensure, specifically, that public funds are used in a transparent and fair manner.

[11] Felly, o edrych ar y modelau o

So, in looking at the governance

lywodraethiant sy'n cael eu cynnig o fewn y Papur Gwyn, mi fuaswn i'n ffafrio comisiynydd a bwrdd. Pam comisiynydd a bwrdd? Wel, cawn ni fynd nôl at yr egwyddor sylfaenol yna o leihau'r newid gweladwy i'r cyhoedd. Hynny yw, datblygu sefydliad y comisiynydd buasai fe trwy ddod â bwrdd—ac mae yna lot o waith trafod, rwy'n credu, ynglŷn â pha fath o fwrdd, ond yr elfen craffu mewnol yna i sicrhau bod arian, yn benodol—grantiau—yn cael eu dosbarthu mewn ffordd briodol. So, mi fuaswn i'n ffafrio'r model comisiynydd, bwrdd, un sefydliad. Eto, rydw i'n credu bod yna ddadleuon gwerth am arian o redeg un sefydliad, un bwrdd, yn hytrach na nifer o fyrddau.

models proposed within the White Paper, I would favour a commissioner and a board. Why a commissioner and a board? Well, let's go back to that fundamental principle of minimising the visible change for the public. So, we would be developing the commissioner's office by bringing in a board—and I think there's a great deal of discussion to be had about the make-up and the kind of board that you would have, but you would need that internal scrutiny to ensure that funding and grants are distributed in an appropriate way. So, I would favour the commissioner and board model all within one organisation. Again, I think there are value-for-money arguments in terms of running one body and one board rather than a number of different boards.

[12] Materion eraill sydd yn y Papur Gwyn—. Mae yna lot fawr o faterion, ond jest i roi blas i chi o rai o'r pethau y byddwn ni'n ymateb iddyn nhw, o ran safonau, rŷm ni'n hapus iawn bod y Papur Gwyn yn datgan bod y gyfundrefn safonau i barhau. Rŷm ni'n dechrau gweld cynnydd, rŷm ni'n dechrau gweld newid, rŷm ni'n clywed sefydliadau'n dweud wrthym ni, yn gymharol reolaidd nawr, yn arbennig y sefydliadau criw cyntaf yna, llywodraeth leol, eu bod nhw'n gwerthfawrogi'r safonau; maen nhw'n lico'r ffaith eu bod nhw'n rhannu'r un safonau, eu bod nhw'n gallu gweithio ar y cyd, ond hefyd bod yna eglurder o ran y

Other issues in the White Paper—. There are a huge number of them, but just to give you a flavour of some of the things that we'll be responding to, in terms of standards, we are very content that the White Paper states that the standards regime is to remain in place. We are starting to see progress, we are starting to see change, we hear organisations tell us, relatively regularly now, particularly those first cohort organisations, namely local government, say that they appreciate standards; they like the fact that they are sharing standards, that they can work together, but also that there is clarity in relation to the standards.

safonau. So, felly, rŷm ni'n croesawu'r ffaith bod y safonau'n parhau. Nid ŷm ni'n gyfforddus o gwbl â'r syniad mai'r Llywodraeth fydd yn gosod y safonau ar y sefydliadau. Mae problemau cyfansoddiadol yn y man cyntaf o ran ai gwleidyddion ddylai fod yn gosod safonau ar sefydliadau. Dyna'r cwestiwn cyntaf.

So, we welcome the fact that standards are to remain. We aren't at all comfortable with this idea that it's the Government that will impose standards on organisations. There are constitutional difficulties in the first place as to whether politicians should be imposing standards on organisations. That's the first question.

[13] Yr ail gwestiwn wedyn rydw i'n credu sy'n codi yw natur y berthynas sydd yn datblygu rhwng rheoleiddiwr a'r corff sy'n cael ei reoleiddio wrth osod y safonau. Rŷm ni wedi mynd trwy chwech—pump ac un wnaeth ddim digwydd, sef y rhai addysg, yn y lle cyntaf. Rŷm ni wedi mynd trwy bum set nawr o safonau, ac mae'r broses wedi esblygu. Mae hi wedi aeddfedu. Mae'r berthynas sydd rhyngom ni nawr a'r sefydliadau diwethaf, y colegau a'r prifysgolion, yn barod yn berthynas briodol, ond yn berthynas gryf o gyd-ddealltwriaeth o beth sy'n digwydd. Rydw i felly'n credu bod y broses gosod safonau sydd yn eistedd gyda'r comisiynydd ar hyn o bryd yn arwain at reoleiddio priodol, aeddfed, oherwydd bod y berthynas yna—ac nid yw hi'n berthynas gyffyrddus wastad—wedi cael ei chreu. So, felly, rŷm ni'n datgan yn eithaf clir ein bod ni'n anghyffyrddus iawn gyda'r syniad yma mai'r Llywodraeth a fuasai'n gosod y safonau.

The second question that arises is the nature of the relationship that develops between a regulator and the body that is regulated in imposing the standards. We've gone through six—five and one that didn't happen, namely for education, at the outset. We've gone through five sets of standards now, and the process has evolved and matured. The relationship between ourselves and the latest organisations, the colleges and universities, is already an appropriate relationship, but also a strong relationship, with a joint understanding of what is happening. I therefore feel that the process of imposing standards that currently sits with the commissioner does lead to appropriate and mature regulation, because that relationship is there. It's not always a comfortable relationship, but a relationship has been created. And, therefore, we are stating quite clearly that we are very uncomfortable with this concept that the Government would impose standards.

[14] A dyna ni, rydw i'n credu. I think that's it. We will be

Byddwn ni yn ymateb yn llawn, ond yr hyn a fuaswn i'n dymuno ei weld, â bod y Papur Gwyn yn symud ymlaen, yw, fel y dywedais i ar y dechrau, adeiladu ar beth sydd gyda ni, peidio â cholli'r momentwm presennol, adnabod y newid sy'n digwydd ar lawr gwlad, a bod unrhyw newidiadau yn hwyluso hynny yn hytrach na llesteirio hynny.

responding in full, but what I would like to see, given that the White Paper is to proceed, is that, as I said at the outset, we should build on what we already have in place—we shouldn't lose the momentum that we've generated, we should identify the changes happening on the ground, and any changes should facilitate them, rather than hamper them.

[15] **Bethan Jenkins:** Sian Gwenllian.

Bethan Jenkins: Sian Gwenllian.

[16] **Sian Gwenllian:** Diolch yn fawr iawn, ac rydw i jest eisiau gofyn ychydig o gwestiynau ynglŷn â'r Papur Gwyn. Rydych chi'n sôn y byddech chi'n hoffi gweld rheoleiddio a hybu a hyrwyddo yn parhau o fewn yr un un corff. A ydych chi'n meddwl y dylai'r corff yna fod o dan y Cynulliad yntau o dan y Llywodraeth? Mae hwnnw'n un cwestiwn. Wedyn, beth am yr elfen strategol? Oherwydd un ddadl sydd wedi ei chyflwyno ynghylch creu dau gorff ydy y byddai un yn gwneud rheoleiddio a'r llall yn cael y trosolwg strategol yna yn ogystal â hybu a hyrwyddo, a chydweithio â chynllunwyr iaith ac yn y blaen. Buaswn i'n hoffi gwybod—ddim heddiw, ond buasai bapur efallai ynglŷn â sut ydych chi'n meddwl dylid ystwytho'r broses fiwrocraidd yn ddefnyddiol, rydw i'n meddwl, ar y pwynt yma, ac o ran eich barn chi ynglŷn â'r ombudsmon yn cynnig efallai fod yn rheoleiddiwr yn y maes yma, os ydy o'n briodol i chi ymateb ar y cwestiwn yna.

Sian Gwenllian: Thank you very much, and I just have a few questions on the White Paper. You mentioned that you would like to see regulation and promotion continuing within the same organisation. Do you think that that organisation should be under the Government or the Assembly? That's one question. And what about the strategic element? Because one argument that's been presented in terms of creating two organisations is that one would look at regulation, and the other would have the strategic overview as well as promotion and working with language planners and so forth. I would like to know—not today, but a paper perhaps on how you think the bureaucratic process should be relaxed would be useful, I think, on this point, and in terms of your views on the ombudsman offering perhaps to be a regulator in this field, if it's appropriate for you to respond to that question.

[17] **Ms Huws:** lawn, diolch yn fawr. I ddechrau, ac i fynd nôl at y cwestiwn gwreiddiol, o ran hybu a hyrwyddo yn parhau gyda'r rheoleiddiwr, rydw i'n credu mai dyna yw un o'r problemau sydd yn bodoli ar hyn o bryd—nid oes yna ddim eglurder. Felly, rŷm ni'n croesawu'r ffaith bod yna drafodaeth ynglŷn â lle mae hybu a hyrwyddo yn eistedd. Pan ddaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i ben, symudwyd lot fawr o'r gweithgaredd hybu a hyrwyddo yna i mewn i'r Llywodraeth. Symudwyd y tîm i mewn i'r Llywodraeth oedd yn delio â hynny. So, rydw i'n credu nad parhau byddwn ni, ond creu eglurder am le mae hybu a hyrwyddo i eistedd.

Ms Huws: Thank you very much. To return to the original question, in terms of promotion remaining with the regulator, I think that's one of the problems that exist at the moment, that there is no clarity. Therefore, we welcome the fact that there is to be a debate on where promotion of the language should sit. When the Welsh Language Board was abolished, many of the promotion activities were taken into Government. The team that dealt with that, in fact, was taken into Government. So, I do think that we wouldn't be continuing with the same system, but we would be providing clarity as to where promotion should sit.

[18] O ran bod yn atebol i'r Cynulliad neu'r Llywodraeth, rydw i'n credu mai atebol i'r Cynulliad y dylai sefydliad o'r math yma fod—perthynas agos â'r Llywodraeth wrth gwrs, yn naturiol. Byddem ni'n gweithio i'r un amcanion strategol, buaswn i'n gobeithio, neu buasai'r sefydliad yma, ond yn atebol i'r Cynulliad. Mae hwnnw'n rhywbeth rŷm ni wedi ei godi oddi ar ddyddiau cynnar y comisiynydd yma, yn ogystal â'r comisiynwyr eraill.

In terms of accountability to the Assembly or the Government, I do think that an organisation of this kind should be accountable to the Assembly. There'd be a close relationship with the Government, of course. We would be working to the same strategic objectives, I hope, or this organisation would, but accountable to the Assembly. That is an issue that we've raised since the early days of this commissioner, as well as the other commissioners.

[19] Cyfrannu at y cyfeiriad strategol yna—mae rheoleiddio yn gallu cael enw gwael, a buaswn i'n dweud bod rheoleiddio gwael yn gallu cael enw gwael. Ond mae rheoleiddio sydd yn bodoli er mwyn gwella gwasanaethau a gwella profiad

In terms of contributing to that strategic direction, regulation can get a bad reputation, and I'd say that bad regulation can get a bad reputation. But regulation that exists in order to improve services and to improve user experience can feed into strategy,

y defnyddiwr yn gallu bwydo i mewn i strategaeth, achos rŷch chi'n adnabod lle mae yna wendidau, rŷch chi'n adnabod lle mae yna gryfderau. Er enghraifft, ar hyn o bryd, rydym ni'n gwybod bod, o ran datblygu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru, yna heriau o ran technoleg gwybodaeth. Wel, dyna gyfle i ddweud wrth y Llywodraeth, 'Mae angen i ni fuddsoddi mewn technoleg gwybodaeth yng Nghymru er mwyn hwyluso gwasanaethau'n cael eu darparu drwy'r ddwy iaith'.

because you identify where the weaknesses lie; you also identify the strengths. For example, at present, we know that, in terms of developing services for the public in Wales, there are challenges in terms of IT. Well, that's an opportunity to inform Government that we need to invest in information technology in Wales in order to facilitate the provision of services through both languages.

09:45

[20] So, felly, rydw i'n gallu gweld rheoleiddio effeithiol yn rhan o'r cyfeiriad strategol, efallai ddim yn rhan anferth, ond mae'r negeseuon sy'n dod o'r broses yna—. Ac rŷm ni'n gweld hynny o'r cwynion rŷm ni yn eu derbyn. Mae yna broblemau sefydliadol, mae yna broblemau sectorol, mae yna broblemau daearyddol yn y fan hyn, a gellid eu taclo nhw felly ar lefel strategol. So, rydw i'n gallu gweld y ddau beth yn eistedd yn reit gyfforddus. Byddwn yn fwy na hapus i ddarparu papur i chi.

So, I do believe that effective regulation can be part of the strategic direction, perhaps not a huge part, but the messages that emerge from that process are of assistance. And we see that from the complaints that we receive. We can identify institutional and sectoral problems, and even geographical problems, and we can tackle them at a strategic level. So, I can see both things sitting quite comfortably together. I would be more than happy to provide you with a paper.

[21] Cais neu gynnig yr ombwdsmon i wneud y gwaith o ran delio â chwynion, yn benodol y gwaith ymchwilio i gwynion—neis i dderbyn cymorth oddi wrth unrhyw un, wrth gwrs, ac rwy'n falch bod ganddo fe ddiddordeb. Ond, os ydych chi'n edrych ar yr hyn yr ŷm yn

In terms of the ombudsman's suggestion that his office could do the work in relation to complaints, specifically inquiries into complaints, I'm happy to receive support from anyone, of course, and I'm pleased that the ombudsman has an interest in this area. But, if you do look at

ceisio'i wneud wrth ddelio â chwynion, mae e ychydig yn wahanol i beth mae'r ombwdsmon yn ei wneud. Beth mae'r ombwdsmon, a beth mae ombwdsmon yn draws y byd, yn ei wneud yw unioni rhywbeth sydd wedi mynd o'i le rhwng unigolyn a sefydliad, a gwneud yn iawn am hynny. So, dyna yw natur ombwdsmon: i fod yn siarad dros y dinesydd, ac yn sicrhau bod yr unigolyn yna sydd wedi cael cam—bod hwnnw'n cael ei unioni. Mae yna elfen o hynny'n digwydd gyda'r cwynion rŷm ni'n delio â nhw. Mae rhywun yn teimlo eu bod nhw wedi cael cam gan sefydliad, ac rŷm ni'n ceisio delio â hynny. Ond beth mae'r cwynion yn eu gwneud i ni hefyd yw rhoi tystiolaeth cadarn, cyfoethog, ynglŷn â'r sefydliad yn ei gyfanrwydd, problemau systemig, ac felly, i ni, mae'n rhan o'n swyddogaeth ni o hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru yn gyffredinol. Mae'n eistedd yn gyfforddus ochr yn ochr—mae cwynion yn eistedd yn gyfforddus ochr yn ochr â'r gwaith monitro rŷm ni'n ei wneud, y cyswllt dyddiol gyda'r sefydliadau. So, felly, buasai tynnu cwynion i ffwrdd a'u gosod nhw mewn sefydliad arall—buaswn i'n colli darn o'r pecyn yna o adnoddau sydd gyda ni i greu newid. So, felly, nid ydw i'n gweld y gwerth, oherwydd buaswn i'n colli—ac nid ydw i'n lico'r term 'arf'—ond buaswn i'n colli arf yn y pecyn sydd gyda ni o greu newid.

what we are trying to do in dealing with complaints, it's slightly different to the ombudsman's approach. What the ombudsman does, and what ombudsmen across the world do, is to provide redress when something has gone wrong between an individual and an institution. That's the nature of the ombudsman's role: it's speaking on behalf of the citizen and ensuring that that individual who has made a complaint does receive some sort of redress, or that that's put right. There are elements of that in terms of the complaints that we deal with. People feel that they haven't been treated properly and we try and deal with that. But what the complaints also provide us with is a wealth of evidence on the organisation as a whole, any systemic problems within that organisation, and so, for us, it is part of our function in promoting and facilitating the use of the Welsh language in Wales. It sits comfortably alongside—complaints sit comfortably alongside the monitoring work that we carry out, the daily relationship that we have with these organisations. So, withdrawing complaints and placing them within another organisation would take away a piece of that package of resources that we have in order to generate change. So, I don't see the value of that, because we would lose—and I don't like the word 'tool'—but we would lose one of the tools that we have in generating change.

[22] **Sian Gwenllian:** Diolch.

Sian Gwenllian: Thank you.

[23] **Bethan Jenkins:** Mae'n rhaid i ni symud ymlaen, sori. Felly, mae gan Suzy Davies gwestiynau.

Bethan Jenkins: We have to move on, sorry. Suzy Davies has some questions.

[24] **Suzy Davies:** Diolch yn fawr. Rŷch chi wedi sôn am weld cynnydd yn eithaf diweddar, ac rŷch chi wedi gweld hefyd teimlad gwell tuag at y safonau ym mhob sefydliad sy'n cael eu heffeithio ganddyn nhw. Ond rŷch chi wedi sôn hefyd am fomentwm araf o ran rhan o'r broses yma. Ac, wrth gwrs, mae'r mwyafrif o sefydliadau mawr cyhoeddus yn dal i weithredu cynlluniau yn lle safonau. A yw'n bosib i chi ddweud beth yw'r rhwystrau rhag gweithredu safonau mewn mwy o sefydliadau cyhoeddus ar hyn o bryd? Beth yw'r rhwystrau yr ŷm ni'n gallu eu gweld?

Suzy Davies: Thank you very much. You've mentioned seeing progress lately, and you've also seen a better attitude towards the standards in organisations that are affected by them. But you've also mentioned the slow momentum relating to part of this process. And, of course, the majority of large public organisations are still implementing Welsh language schemes rather than standards. Is it possible for you to tell us what the barriers are to implementing standards in more public organisations at present? What are the barriers that we can see?

[25] **Ms Huws:** A ydych chi eisiau pigo i fyny ar hwnnw?

Ms Huws: Do you want to pick up on that?

[26] **Mr Sion:** Ocê. Wel, jest o ran y cyd-destun i ddechrau, rydym ni wedi gweithio yn fwyaf diweddar efo prifysgolion a cholegau addysg bellach. Felly, mi wnaethom ni rhoi'r dyletswyddau terfynol arnyn nhw ddiwedd mis Medi. Mae yna gyfnod statudol o chwech mis wedyn cyn bod y safonau'n dod yn weithredol. Felly, mi fyddan nhw'n weithredol yn y cyrff yna o fis Ebrill ymlaen. Erbyn y pwynt yna wedyn, mi fydd yna 103, rydw i'n meddwl, o gyrff cyhoeddus, yn gweithredu safonau. Felly, mae'n bwysig cofio hynny yn y lle cyntaf.

Mr Sion: Okay. Well, just in terms of the context, first of all, we have been working most recently with universities and further education colleges. So, we placed the final responsibilities on them at the end of September. There's a statutory period of six months then before the standards are implemented. And, therefore, they will be implemented within those organisations from April onwards. By that point, there will be 103 public bodies, I think, implementing standards. It's important to bear that in mind first

Felly, rydym ni'n sôn am fwyafrif y cyrff cyhoeddus mawr yng Nghymru. of all. So, we are talking about the majority of major public bodies within Wales.

[27] Yr un eithriad amlwg i hynny ydy'r sector iechyd, ac mae'n deg dweud ein bod ni i gyd efallai wedi bod yn disgwyl gweld rheoliadau ar safonau ar gyfer y sector iechyd ers dipyn erbyn hyn. Rydw i'n meddwl mai rhan o'r rheswm bod yna oedi wedi bod ydy oherwydd y drafodaeth ar y Papur Gwyn. Felly, mae hynny wedi oedi'r broses o osod rheoliadau yn y cyfamser. Mae'r Gweinidog wedi gwneud ymrwymiad i gyflwyno'r rheoliadau iechyd cyn diwedd y flwyddyn galendr. Felly, rydym ni'n edrych ymlaen i weld y rheini yn fuan.

The one obvious exception to that is the health sector, and it is fair to say that we have all been expecting the regulations for standards for the health sector for quite some time now. I think part of the reason for the delay in that is because of the discussion on the White Paper. So, that's delayed the process of laying regulations in the meantime. The Minister has made a commitment to introduce the health regulations before the end of the calendar year. So, we look forward to seeing those soon.

[28] O ran cyrff eraill wedyn a sectorau— Now, in terms of other bodies and sector—

[29] **Suzy Davies:** Cyn i chi symud ymlaen, a allaf jest ganolbwyntio ar rywbeth yma? Rŷch chi wedi dweud bod trafodaethau ynghylch y Papur Gwyn wedi oedi cynnydd ar y safonau iechyd. Pam ydych chi'n dweud hynny? Achos mae'r ymgynghoriad wedi dod i ben fisoedd yn ôl.

Suzy Davies: Before you move on, can I just concentrate on something here? You said that discussions around the White Paper have delayed progress on the health standards. Why are you saying that? Because the consultation came to an end months ago.

[30] **Mr Sion:** Na. O ran y Papur Gwyn ar y cynigion ar gyfer Bil newydd, mae'r ymgynghoriad yna'n dod i ben dydd Mawrth. Felly, yn ystod y cyfnod yna, ymrwymiad y Llywodraeth oedd na fyddan nhw'n cyflwyno unrhyw rheoliadau pellach— hynny ydy, eu bod nhw angen y

Mr Sion: No. In terms of the White Paper on the proposals for a new Bill, that consultation comes to an end on Tuesday. So, during that period, the Government's commitment was that they would not introduce further regulations—that they needed to have that debate on the future of the

drafodaeth yna ynglŷn â dyfodol y ddeddfwriaeth. Felly, wrth gyflwyno'r Papur Gwyn, beth y mae'r Gweinidog wedi'i ddweud ydy y byddan nhw'n cyflwyno rheoliadau safonau ar gyfer y sector iechyd cyn diwedd y flwyddyn galendr.

legislation. So, in introducing the White Paper, what the Minister has said is that they will introduce standards regulations for the health sector before the end of the calendar year.

[31] **Suzy Davies:** Felly, mae e wedi dewis arafu'r penderfyniadau dros y—

Suzy Davies: So, he has decided to slow down the decisions—

[32] **Mr Sion:** Do. Y penderfyniad sydd wedi'i wneud ydy i beidio â chyflwyno rhagor o reoliadau yn ystod y cyfnod yna o ymgynghori ar y ddeddfwriaeth. Ond, fel rwy'n ei ddweud, mae yna ymrwymiad i gyflwyno rheoliadau safonau iechyd cyn diwedd y flwyddyn galendr.

Mr Sion: Yes. The decision taken was not to introduce further regulations during that period of consultation on the legislation. But, as I say, there is a commitment to introduce health standards regulations before the end of the calendar year.

[33] **Suzy Davies:** Beth oedd y rheswm a roddodd e i chi?

Suzy Davies: What was the reason he provided to you?

[34] **Mr Sion:** Rwy'n meddwl mai'r rheswm cyhoeddus sydd wedi cael ei roi ydy oherwydd, yn ystod cyfnod o drafod Deddf newydd, ni fyddai'n briodol wedyn i gyflwyno rhagor o reoliadau.

Ms Sion: I think that the reason given publicly is because, during a period of discussion on new legislation, it wouldn't be appropriate to bring forward further regulations.

[35] **Suzy Davies:** Ocê, diolch am hynny. Ai dyna'r rheswm hefyd pam nad ydym wedi gweld tipyn bach o gynnydd ar sectorau eraill fel dŵr a threnau a bysys ac yn y blaen?

Suzy Davies: Okay, thank you for that. Is that also the reason why we haven't seen much progress in other sectors, such as water, trains and buses and so forth?

[36] **Mr Sion:** Ie. O ran sectorau eraill wedyn, mi fyddwch yn ymwybodol efallai fod y cam cyntaf yn y broses ymchwiliadau safonau yn ein gofal ni, fel comisiynydd. Felly,

Ms Sion: Yes. In terms of the other sectors, you will perhaps be aware that the first step in the process of standards inquiries sits with us, as the commissioner's office. So, we

rŷm ni wedi gwneud y cam yna efo nifer o sectorau eraill rŷch chi wedi sôn amdany'n nhw—felly, cymdeithasau tai, cwmnïau nwy a thrydan, ac yn y blaen. Felly, rŷm ni wedi cyflwyno adroddiadau ar y sectorau yna i'r Llywodraeth. Nid ydym wedi gweld rheoliadau safonau ar y sectorau yna eto. Rŷm ni'n gwybod mai'r sector iechyd fydd nesaf.

have undertaken that step with a number of other sectors that you've mentioned—housing associations, gas and electricity companies and so on. So, we have presented reports on those sectors to the Government. We haven't seen standards regulations on those sectors as of yet. We know that the health sector is next in line.

[37] Mae'r Llywodraeth hefyd wedi ymgynghori ar reoliadau drafft ar gyfer y sector cwmnïau dŵr. Rŷm ni'n gwybod hefyd eu bod nhw wedi bod yn paratoi ar gyfer cymdeithasau tai, felly rydym yn obeithiol y bydd y sectorau yna'n dod trwodd yn fuan. Ond mae yna eithaf tipyn o sectorau ar hyn o bryd lle mae'r camau cyntaf wedi'u cymryd, ond nid oes rheoliadau wedi dilyn eto.

The Government has also consulted on draft regulations for the water companies. We also know that they have been preparing the ground for housing associations, so we are hopeful that those sectors will come through soon. But there are quite a few sectors now, where the initial steps have been taken, but no regulations have been laid.

[38] **Suzy Davies:** Felly, nid yw'ch amserlen chi wedi cael ei heffeithio, ond mae beth sy'n digwydd nesaf wedi cael ei effeithio.

Suzy Davies: Therefore, your timetable hasn't been affected, but what is happening next has been affected.

[39] **Mr Sion:** Ydy. Rwy'n meddwl, erbyn hyn rŷan, gan ein bod ni wedi gorffen gweithio efo'r prifysgolion a'r colegau addysg bellach, rŷm ni wedi gweithio efo pob corff rŷm ni'n gallu ar y pwynt yma. Felly, cyn y gallwn ni osod mwy o safonau, mae'n rhaid i ni gael mwy o reoliadau trwy'r Cynulliad. Wedyn, y sector nesaf y byddwn ni'n gweithio efo fo fydd y sector iechyd.

Mr Sion: Yes. I think by this point, because we have concluded our work with universities and further education colleges, we have worked with every organisation that we can at this point. So, before we can implement further standards, we need more regulations through the Assembly. So, the next sector that we will be working with will be the health sector.

[40] **Suzy Davies:** A'r unig reswm yw'r trafodaethau ynghylch y Papur Gwyn a beth ddywedodd y Gweinidog cyn hynny. **Suzy Davies:** And the only reason is because of the discussion around the White Paper and what the Minister said before.

[41] **Mr Sion:** Ie. Yn achos rheoliadau'r sector iechyd, mi roedd rhaid i'r trafodaethau yna, yr ymgynghoriad cyhoeddus yna, ddigwydd yn gyntaf, yn ôl beth rŷm ni'n ei ddeall, ac wedyn rheoliadau pellach yn cael eu cyflwyno. **Mr Sion:** Yes. In relation to the health sector regulations, then those discussions and that public consultation had to happen first, as we understand it, and then further regulations would be brought forward.

[42] **Ms Huws:** A gaf i ddweud o ran y sector iechyd? Erbyn hyn, mae hynny'n creu problemau ar lawr gwlad oherwydd y mae gofal cymdeithasol yn gweithredu erbyn hyn, ers blwyddyn a hanner, o fewn safonau. Mae'r sector iechyd, sydd yn bartner agos iawn i ofal cymdeithasol, yn gweithio o fewn cyfundrefnau eraill. Rwy'n clywed, wrth fy mod i'n mynd o gwmpas ac yn siarad â phenaethiaid, fod yna ddwy gyfundrefn yn rhedeg a bod yna ddim cyfleodd i redeg o fewn yr un strwythur. Mae hynny'n peri pryder i fi oherwydd mae yna gyfle yn cael ei golli yn fan hyn. **Ms Huws:** Could I just say, in terms of the health sector? By now that does create problems at a grass-roots level because social care has been operating within the standards for a year and a half. The health sector, which is a close partner to social care, is working within different regimes. As I go around and talk to various heads, there is frustration that there are two regimes running separately and that there are no opportunities to run within the same structures. That is a cause of concern for me because an opportunity is being lost here.

[43] **Suzy Davies:** Diolch am hynny. Diolch, Cadeirydd. **Suzy Davies:** Thank you for that. Thank you, Chair.

[44] **Bethan Jenkins:** Jeremy Miles.

[45] **Jeremy Miles:** A gaf i ofyn cwestiwn am y sector iechyd yn gyffredinol? Pan rŷch chi ar fin dechrau'r broses o osod safonau, a **Jeremy Miles:** Can I ask a question about the health sector in general? When you're in the process of implementing standards, do you

ydych chi'n gwneud gwaith hybu a pharatoi'r tir o flaen llaw—paratoi'r gweithlu a pharatoi'r sefydliadau? Mae'r gwaith hynny'n digwydd, ydy e?

undertaken promotion and prepare for this work—prepare the workforce and organisations? That work is happening, is it?

[46] **Ms Huws:** Wyt ti eisiau sôn am yr hyn sy'n digwydd yn gyffredinol ac fe wnaf i sôn am ieched yn benodol a beth sy'n digwydd?

Ms Huws: Do you want to mention what's happening more generally, and I'll cover health specifically?

[47] **Mr Sion:** Iawn. O ran y gwaith o osod safonau, felly, yn gyffredinol, mi ydym ni erbyn hyn yn cymryd eithaf tipyn o amser i ymgynghori efo sefydliadau. Felly, rwy'n meddwl bod honno efallai yn un wers rydym wedi'i dysgu wrth i'r broses fynd yn ei flaen. Felly, mae'r cyfnod o drafod ac ymgynghori bellach yn fwy, efallai, nag yr oedd ar y dechrau. Rwy'n meddwl bod hynny'n ddefnyddiol i'r sefydliadau, yn sicr o ran deall yn well beth ydy'r dyletswyddau a beth fydd yn cael ei osod arny'n nhw. Mae o'n well i ni hefyd, achos mae yn rhoi cyfle inni ystyried yn union beth ydy amgylchiadau cyrff hefyd ymlaen llaw. Felly, y gobaith wedyn ydy bod yr hysbysiad sy'n cael ei gyflwyno iddyn nhw'n derfynol yn agos iawn at beth y dylai fod.

Mr Sion: Yes. In terms of the work of imposing standards more generally, we do now take some time to consult with organisations. So, I think that's a lesson that we have learnt, as the process has evolved. So, that period of discussion and consultation is perhaps longer now than it was at the outset. I think that's useful for the organisations, certainly in terms of getting a better understanding of the duties imposed upon them. It's better for us too, because it gives us an opportunity to consider the exact circumstances of organisations, and the hope then is that the notice presented to them ultimately is very close to what it should be.

[48] Mae yna broses wedyn lle mae'r sefydliad yn gallu herio dyletswydd, ac mae hynny'n digwydd. Ond, fel rwy'n ei ddweud, mae'r cyfnod yna o ymgynghori a thrafod bellach ychydig yn hirach. Rydym hefyd yn ceisio sicrhau ein bod ni'n cyfarfod â phob sefydliad, fel bod yna

There is then a process by which an organisation can challenge a duty imposed, and that does happen. But, as I've said, that period of consultation and further discussion is now slightly longer. We also try and ensure that we meet every organisation, so that there is face-

gyswllt wyneb yn wyneb a phersonol yn digwydd yn ystod y cyfnod yna hefyd.

to-face contact and personal contact during that period too.

[49] **Ms Huws:** Ac, o sôn yn benodol am y sector iechyd—oherwydd efallai ein bod ni wedi disgwyl bod y safonau yna yn gweld golau dydd dipyn cyn hyn—mae yna berthynas gadarn iawn wedi cael ei sefydlu â'r sector iechyd ar lefel—. Rwy'n cwrdd â'r prif weithredwyr drwy'r GIG yn eithaf aml. Mae yna berthynas unigol wedi'i sefydlu â chadeiryddion—rhai'n gryfach o ran perthynas nag eraill. Felly, rwy'n gweithio gyda'r prif swyddogion er mwyn iddyn nhw ddeall beth sydd yn mynd i ddigwydd. Er enghraifft, mae yna berthynas iach iawn, iawn rhyngof i a'r prif swyddogion lawr yn Hywel Dda; mae'n berthynas sydd wedi tyfu ar hyd y blynyddoedd.

Ms Huws: And, talking specifically about the health sector—because we'd perhaps expected those standards to have come to light much earlier than now—there is a very robust relationship that's been established with the health sector on the level—. I, for example, meet chief executives through the NHS quite often, and an individual relationship has been established with the chairs—some are stronger in terms of a relationship than others. So, I work with the senior officials so that they understand what is going to happen. For example, there is a very healthy relationship between me and senior officials down in Hywel Dda, and this has grown over the years.

[50] Rŷm ni wedyn yn gweithio gyda'r cyrff proffesiynol, y rhai sydd yn cynrychioli'r gweithlu. Mae yna berthynas, eto, iach iawn wedi datblygu rhyngom ni a'r cyrff proffesiynol, a'r colegau brenhinol—colegau brenhinol yn gweithredu yng Nghymru a thu fas i Gymru. Mae yna gyswllt cryf iawn â'r Coleg Nyrsio Brenhinol ar lefel Llundain, er mwyn iddyn nhw ddeall beth a fydd yn angenrheidiol. Ac mae hynny'n wir am y colegau brenhinol i gyd.

We then work with the professional bodies, those bodies that represent the workforce. Again, there is a very healthy relationship that's developed between us and the professional bodies, and the royal colleges—the royal colleges operating in Wales and also outside Wales. There is a strong link with the Royal College of Nursing in London, in order for them to understand what will be necessary. And that is true to say of all the royal colleges.

[51] Wedyn, rŷm ni'n gweithio fel yr ŷm ni wedi bod yn gwneud, achos, wrth gwrs, mae'r byrddau iechyd yn

And then, we work as we have been doing, because, of course, the health boards are still operating under their

dal i weithredu o dan eu cynlluniau iaith traddodiadol, ac felly mae yna berthynas draddodiadol â'r swyddogion iaith ym mhob un o'r byrddau hefyd sydd wedi—. Wrth gwrs, rŷm ni wedi bod yn treulio amser yn trafod beth fydd y newid pan ddaw e. Felly, mae'n digwydd ar sawl gwahanol lefel gyda'r sector yna.

traditional language schemes, and there is a traditional relationship with the language officials in each of the boards that has—. Of course, we've been spending time discussing what the changes will be when they happen. So, it happens on a number of different levels with that sector.

[52] **Jeremy Miles:** Yn nhermau allbwn y prosesau, y perthnasau yna, a ydych chi'n gweld bod y broses yna yn newid pethau ar lawr gwlad yn barod—newid ymddygiad, newid agwedd, newid penderfyniadau staffio, darpariaeth ymlaen llaw, fel petai?

Jeremy Miles: In terms of the output of those processes, those relationships, do you believe that that process is changing things on the ground already—is it changing attitudes, changing behaviours, changing staffing decisions, in terms of making that provision?

[53] **Mr Sion:** Rwy'n meddwl, o ran y sector iechyd, cwpl o bethau fuaswn i'n dweud. Rydym ni wedi gwneud gwaith penodol yn y sector iechyd y tu allan i'r drefn safonau hefyd. Gwnaethom ni gynnal ymholiad iechyd gwpl o flynyddoedd yn ôl a oedd yn edrych ar ofal sylfaenol yn benodol, ond mae'r gwaith yna, rwy'n meddwl, wedi arwain at wella hefyd o ran ymwybyddiaeth a chynllunio yn fwy cyffredinol na hynny. Felly, mae yna bethau cadarnhaol yn digwydd, ac mae ymwybyddiaeth yn sicr yn uwch nag oedd hi.

Mr Sion: I think that, in terms of the health sector, I'd say a couple of things. We have undertaken work specifically in the health sector outside the standards regime. We held a health inquiry a few years ago that looked at primary care, and that work, I think, has led to an improvement also in awareness and planning on a more general level. Therefore, there are positive things that are happening, and awareness is certainly much better than it was.

[54] Wedi dweud hynny, ac rwy'n meddwl y byddwch chi'n trafod yr adroddiad sicrwydd nes ymlaen, mae yna *issues* yn codi o ran y sector

Having said that, of course, and I think you'll be discussing the assurance report later on, there are issues in terms of the health sector

iechyd ac o ran gwasanaethau Cymraeg. Nid ydy'r perfformiad gystal ag y mae mewn sectorau eraill, ond efallai y bydd hynny'n codi yn nes ymlaen y bore yma.

and in terms of Welsh language services. The performance isn't as good as in other sectors, but perhaps that will become apparent later on this morning.

[55] **Jeremy Miles:** Océ.

Jeremy Miles: Okay.

[56] **Bethan Jenkins:** Jeremy, sori, ond cyn iti symud ymlaen at y gyllideb, mae Lee Waters a Siân eisiau dod i mewn ar y pwynt yma.

Bethan Jenkins: Jeremy, sorry, but before we move on to the budget, Lee Waters and Siân want to come in at this point.

[57] **Lee Waters:** I just want to ask you specifically about the anxiety within the health sector about the impact on the recruitment problems they have of imposing further restrictions on their ability to recruit, and your reflections on those anxieties.

[58] **Ms Huws:** Rŷm ni'n ymwybodol iawn, iawn o'r heriau sydd yn y sector iechyd. Mae'n ffaith ein bod ni wedi bod yn cydweithio â'r byrddau a'r cyrff proffesiynol, y colegau brenhinol ac eraill, ers pum mlynedd nawr. Rŷm ni'n gwybod beth yw'r heriau mawr, ac rŷm ni'n sensitif i'r rheini, yn llwyr sensitif i'r rheini. Dyma pam yr wyf i wedi gwerthfawrogi cael y berthynas â'r sefydliadau, er mwyn edrych ar ffyrdd o ymateb i hynny. Er enghraifft, rhywbeth syml i ddechrau: nid oedd y byrddau iechyd—ac mae yna wendidau o hyd yn y system—yn cofnodi sgiliau ieithyddol y gweithwyr presennol ac efallai'n colli cyfle yn fanna am eu bod nhw ddim yn adnabod lle mae eu siaradwyr Cymraeg nhw, boed nhw'n therapyddion, yn ddeintyddion, yn nyrsys, ac yn y blaen. Felly, rŷm ni

[206] **Suzy Davies:** Diolch yn fawr. Jest cwpwl o gwestiynau ar dderbynfeydd: jest i ddechrau gyda'r arwyddion, mae'n debyg i fi, erbyn hyn, nid oes esgus o gwbl i beidio cael pob arwydd yn ddwyieithog. Rydw i'n gweld y gwelliant, wrth gwrs, ond a ydych chi'n gwybod pam nad ydym ni ar 100 y cant eto? A ydym ni'n sôn am arwyddion dros dro neu bobl yn dod i mewn yn sticio taflenni ar y wal? A oes gennym ni unrhyw resymau?

Suzy Davies: Thank you very much. I've got just a couple of questions on reception areas. If we start with signage, it appears to me that there's no excuse at all not to have every sign bilingually. I'm seeing the improvement, of course, but do you know why we're not on 100 per cent now? Are we talking about temporary signs or people coming in and putting pamphlets on the wall? Do we have any reasons?

[207] **Ms Price:** Rydw i'n meddwl ei bod hi'n anodd dadansoddi'r rhesymau manwl am bob un llithriad o'r natur yna. Nid ydw i'n meddwl ei fod o'n ddim byd i wneud efo'r gyfundrefn fel y cyfryw. Fe all o wneud efo perfformiad gwael sefydliad; fe all o fod bod rheoleiddiwr yn caniatáu i bobl beidio â gwneud beth ddylen nhw wneud. Ond mae'n gynnar arnom ni—. Dyma'r tro cyntaf i ni wneud cip arolwg i weld beth ydy'r problemau. Rydw i'n meddwl mai'r pwynt fyddwn i'n ei wneud efo mân bethau fel yna

Ms Price: It's difficult to analyse the reasons for every slip of that nature. I don't think it's anything to do with the regime as such. It can relate to the poor performance of an institution; it can be that a regulator is allowing people not to do what they should be doing. But it's at an early stage, and this is the first time that we've had a snap survey just to identify the problems. I think the point I would make with those minor things is that they are very numerous, and I do believe that that is because we are transferring from a

ydy eu bod nhw'n niferus iawn, ac rydw i'n grediniol bod hynny oherwydd ein bod ni'n trosglwyddo o drefn cynlluniau iaith lle nid oedd yna gamau pellach, lle roedd sefydliadau, efallai, wedi mynd i arfer â phheidio gwneud pethau roedden nhw wedi ymrwymo iddyn nhw. Mae'r drefn yma'n gofyn am newid diwylliant, ac mae yna newid, rydw i'n meddwl, rhwng y flwyddyn ariannol ddiwethaf a'r un cynt—bod yna ganrannau'n dangos newid clir.

language scheme system where there was no enforcement action, where organisations, possibly, had become used not to doing things they were committed to. This standards system does call for a culture change and there has been a change, I think, from the last financial year and the previous financial year. There are percentages that demonstrate clear change.

[208] Felly, rydym ni'n ceisio cynnal y newid yna a sicrhau bod arferion fel y rhai rydych chi'n eu nodi yn lleihau dros amser. Ond mae o'n golygu wedyn ein bod ni'n gorfod edrych ar y broblem yn ei chyfanrwydd—nid mân bethau. Mae'r adroddiad yma, mewn ffordd, yn rhoi darlun i sefydliadau o beth ydy'r sefyllfa yn hytrach na'n bod ni'n ymchwilio i lot o bethau unigol, a rydym ni'n gobeithio y byddan nhw'n ymateb. Mae gennym ni gynlluniau amrywiol er mwyn gweithio efo nhw. Rydym ni'n mynd i weld nifer uchel o sefydliadau'n unigol, felly rydych chi'n cael adroddiad yn rhoi'r darlun cyffredinol. Rydym ni'n gwybod hefyd beth ydy perfformiad corff unigol, felly byddwn ni'n mynd i siarad efo nhw a dangos iddyn nhw beth rydym ni wedi'i ganfod yn eu sefyllfa nhw, a byddan nhw'n gallu cywiro, datblygu a newid ar sail sgwrs a chyfarfod adborth. Rydym ni wedi sôn am y gweithdai: pan fyddwn ni'n mynd i'r afael efo problemau mwy, a'r cynnig

So, we are trying to maintain that momentum and ensure that the practices such as those you note do reduce over a period of time. But it does mean that we have to look at the problem in its entirety, not look at the minutiae. This report, in a way, does give organisations a picture of what the situation is, rather than us carrying out investigations into numerous individual issues, and we hope that they will respond. We do have various programmes where we will work with them. We do go and see a high number of organisations on an individual basis, so this report gives you the bigger picture. We also know what the performance of individual organisations is, and therefore we will go to speak to them and we will tell them what our findings are, and then they can put right any deficiencies and develop and change on the basis of that feedback. We've talked about the workshops: when we tackle greater problems, and this year it's the active

rhagweithiol a hybu ydy o eleni, rydym ni'n mynd i fod yn trio chwilio am ffyrdd ymlaen fel grŵp efo sefydliadau. Rydym ni—

offer and promotion, then we will be seeking ways forward as a group working with organisations. We are—

[209] **Suzy Davies:** A allaf i jest ddweud, rydw i'n derbyn beth rydych chi'n ei ddweud, ond gyda rhywbeth fel arwyddion, does dim rheswm *really* i roi mwy o amser iddyn nhw neu dderbyn esgus oddi wrthyn nhw?

Suzy Davies: Can I just say, I accept what you're saying, but with something such as signage, there is no reason, really, to give them more time or to accept an excuse from them?

[210] **Ms Price:** Na, na. Dim o gwbl: mae'r ddyletswydd yna, mae'r diwrnod gosod yn ei le, ond rydw i'n meddwl, fel rheoleiddiwr, mae gennym ni mewn ffordd ddewis, onid oes? Byddem ni'n gallu mynd ar ôl pob methiant yn unigol neu mi allwn ni wneud gwaith fel hwn a chyhoeddi adroddiad a gofyn i sefydliadau ymateb a chywiro, ac rydw i'n meddwl bod hynny'n ffordd fwy rhesymol o ddelio efo rhywbeth. Os ydym ni'n gweld bod yna angen i bawb wella efo'i gilydd a'i fod o mor hawdd i wneud beth bynnag, byddem ni'n dymuno eu gweld nhw'n ymateb i'r adroddiad drwy gyfarfod a sylweddoli. Mae ganddyn nhw le, rydw i'n meddwl, i wneud mwy o hunan-reoleiddio. Ni allwch chi fod yn dibynnu ar reoleiddiwr i wneud pob peth, ond pan aethom ni allan a chyfweld mewn sefydliadau, rydw i'n meddwl bod 77 y cant ohonyn nhw wedi methu rhoi enghreifftiau i ni o hybu, lle mi oedd yna rai yn gallu, ond roedden nhw'n meddwl eu bod nhw'n gwneud, pan oeddem ni'n mesur. Roedden nhw'n meddwl bod y

Ms Price: No, not at all. The duty is there, the implementation date is in place, but as a regulator, we have an option, don't we? We have a choice: we could pursue every individual failing or we can do work such as this and publish a report, and ask organisations to respond and put right any problems, and I think that that's a more reasonable approach in dealing with an issue. If we do see that there is a need for everyone to improve and that it's such an easy thing to do in any case, then we would want to see them responding to the report in having a meeting with us so that we can explain. I think there is room for more self-regulation. You can't rely on a regulator to do everything on your behalf, but when we went out and interviewed people within organisations, I think that 77 per cent had failed to provide us with examples of promotion, where some were able to do that, but they thought they were doing it, when we were monitoring. They thought that the badges were in place and that the

bathodynau yna, bod y cynnig yn digwydd. Felly, mae'n rhaid iddyn nhw, rydw i'n meddwl, fod yn fwy systematig a deall yn well, efallai.

active offer was there. So, I think they have to be more systematic and they have to understand better, perhaps.

[211] **Suzy Davies:** Ond *easy hits* yw'r rheini. A ydy rhai ohonyn nhw wedi dweud, 'Wel, *actually*, rŷm ni'n derbyn bod yna broblem, ac rŷm ni'n mynd i'w wneud e'r flwyddyn nesaf, gyda'r gyllideb nesaf', er enghraifft?

Suzy Davies: But these are easy hits. Have some of them said, 'Well, actually, we accept there's a problem, and we're going to do it next year, with next year's budget', for example?

[212] **Ms Price:** Ydyn, yn sicr.

Ms Price: Most certainly, yes.

[213] **Ms Huws:** Rydw i'n credu, gyda chyhoeddi'r adroddiad yma—mae'r galw sydd wedi dod i mewn i'r swyddfa am *lanyards* iaith gwaith wedi saethu trwy'r to oddi ar gyhoeddi hwn, ac rydw i'n credu bod teclynnau fel hyn yn bwysig. Mae hwn wedi cyrraedd desg prif weithredwr, ac mae rhywun wedi gofyn, 'A ydym ni'n gwneud hyn?' 'Na, nid ydym ni'n ei wneud e'n gyffredinol.' 'Mae'n rhaid inni ei wneud e nawr.' So, felly rydw i'n credu bod hwn yn rhan o'r pecyn o newid arfer. Fel y dywedodd Gwenith, rydw i'n credu, pan fo'n broblem fwy cyffredinol, cael y neges mas a'u cael nhw i ymateb sydd yn bwysig, rydw i'n credu.

Ms Huws: I think, with the publication of this report—the demand in the office for the *iaith gwaith* lanyards has gone through the roof since we published this assurance report, and I think tools such as this are important. This has landed on the desk of a chief executive, and someone's asked, 'Are we doing this?' 'Well, generally speaking, no.' 'We have to do it now.' So, I do think this is part of the package of behavioural change. As Gwenith said, I think, when it's a more general problem, it's a matter of getting the message out there and getting them to respond; I think that's the important point here.

[214] **Suzy Davies:** Ai dyna sut ydych chi'n delio â phobl y tu ôl i'r cownters, er enghraifft, hefyd? A ydych chi'n chwilio am ddiffyg yn y rheini sy'n siarad Cymraeg o safbwynt diwylliannol, yn lle dweud wrth unrhyw gyngor, er enghraifft, 'Come on, rŷch chi wedi cael cwpwl o

Suzy Davies: And is that how you deal with people behind counters, for example, as well? Are you looking at those who don't speak Welsh in terms of a cultural change, rather than telling any council, for example, 'Come on, you've had a couple of years now. There aren't enough

flynyddoedd nawr. Nid oes digon o bobl y tu ôl i'r cownter sy'n siarad Cymraeg. Beth yw'r rheswm?', a sut allech chi helpu?

people behind the counter that speak Welsh. What is the reason?', and how can you help?

[215] **Ms Price:** Mae'n gyfuniad, rydw i'n meddwl. Mae yna, efallai, achosion lle mae yna bethau wedi mynd o'u lle, ac mae'n bosib bod yna ymchwiliad wedi digwydd oherwydd efallai nad yw sefydliad wedi mynd i'r afael yn strategol efo'i dderbynfeydd i gyd. Drwy broses o osod, mi oedd yna gyfnod o herio a thrafod a meddwl beth sy'n rhesymol. Mae yna dair math o safon ar gyfer derbynfeydd. Felly, rydym ni wedi cymryd cam yn ôl a meddwl beth sy'n rhesymol—prif dderbynfeydd, derbynfeydd llai ac yn y blaen. Felly, mae o wedi cymryd amser i ni ddod at bwynt o feddwl beth i wneud efo pawb, ond mae mân bethau o beidio â dangos bod rhywun yn gallu defnyddio'r Gymraeg pan fo'r staff yn medru yn rhywbeth mor hawdd i'w ddatrys. Dylasai hynny ddigwydd drwy drafodaeth, rydw i'n credu.

Ms Price: It's a combination of factors, I think. I think there are cases perhaps where things have gone wrong and there may have been an investigation because perhaps an organisation hasn't tackled its reception areas on a strategic level. Through imposing standards, there was a period of challenge and considering what was reasonable. There are three kinds of standards for reception areas. So, we have taken a step back and looked at what is reasonable—main reception areas, smaller reception areas and so on and so forth. So, it has taken us time to get to a point where we consider what to do in all circumstances, but issues of not displaying that an individual is able to provide a Welsh-language service when that service is available are so easily resolved. That should happen through discussion, I think.

[216] **Mr Dafydd:** Mae hynny'n gywir, ac rydw i'n meddwl eich bod chi'n iawn i sôn am yr *easy hits* yma, oherwydd mae'r dystiolaeth ynghylch y gwelliannau o ran gwasanaethau rheng flaen—y ffôn a'r dderbynfa, ac yn y blaen—yn dangos bod sefydliadau wedi bod yn cynllunio eu gweithlu mewn ffordd sydd yn galluogi i'r gwasanaethau yna, y gwasanaethau pwysig yna, fod ar

Mr Dafydd: That's right, and I think you're right to talk about these easy hits, because the evidence in terms of the improvements in front-line services—phones and receptions, for example—shows that organisations have been planning their workforce in a way that enables those services, those vital services, to be available in Welsh. It's much more complex to improve a service where you have

gael yn Gymraeg. Mae cymaint yn fwy cymhleth gwella gwasanaeth lle mae gennych chi staffio ac yn y blaen na phethau fel sortio arwydd a dangos bathodynau.

staffing and so forth than things such as sorting out a sign and wearing badges.

[217] Mae yna ddiffygion o ran adrodd ar ofynion newydd penodol yn yr adroddiad blyneddol mae sefydliadau'n gorfod ei gyhoeddi. Hynny ydy, mae rheini'n bethau y gallwch chi eu sortio heb fod angen buddsoddiad adnodd mawr. Fel yr oedd Gwenith yn ei ddweud, yr ateb ydy hunanreoleiddio: bod angen i sefydliadau fynd ati yn systematig i edrych drwy ofynion y safonau. Mae sefydliadau'n dweud wrthym ni yn y gweithdai yma, lle maen nhw wedi trosglwyddo gofynion y safonau i mewn i raglenni gwaith, i mewn i restr o dasgau ar gyfer rheolwyr penodol o fewn y sefydliadau, fod hynny wedi cyflymu gwelliant. Felly, ie, mae yna *easy hits* i'w gwneud, ac mae angen i sefydliadau wneud mwy o hunanreoleiddio.

There are deficiencies in terms of reporting back on new specific requirements in the annual reports that organisations have to publish. That is, those are things that you can sort without having to invest massively in resources. As Gwenith said, the answer is self-regulation. Organisations need to look systematically at the requirements in the standards. Organisations tell us in these workshops that, where they have transferred the standards requirements into work programmes and into a series of tasks for specific managers within organisations, that that has speeded up the process of improvement. So, there are easy hits and organisations need to do more self-regulation.

[218] **Suzy Davies:** Ie. Rwy'n ei dderbyn e'n fwy gyda staff, achos nid ydych chi'n gallu jest cael gwared ar staff achos nad ydyn nhw'n siarad Cymraeg, er enghraifft, ond y tro nesaf y bydd yr adroddiad nesaf yn dod mas, a ydym ni'n mynd i weld cynnydd?

Suzy Davies: I accept that with staff, because you can't just get rid of staff because they don't speak Welsh, but, next time, when the next report is published, are we going to see progress?

[219] **Ms Huws:** Buaswn i'n disgwyl. Buaswn i'n disgwyl, yn sicr.

Ms Huws: I would expect so, yes. I would certainly expect so.

[220] **Suzy Davies:** Diolch.

[221] **Bethan Jenkins:** Lee Waters.

[222] **Lee Waters:** One area where there is some difficulty making progress, it seems, is around digital. I was just wondering if you could set out what the expectations under the standards are for delivering services through the digital means for those organisations covered.

[223] **Ms Huws:** Os gallaf i jest ddechrau, rydw i'n credu bod y safonau o gwmpas disgwyliadau digidol yn newydd, maen nhw'n heriol, ac rŷm ni'n cydnabod hynny, oherwydd mae hon yn daith rŷm ni i gyd yn mynd arni hi, pe bai yn awdurdodau lleol neu'n fusnesau. O ganlyniad i hynny—ac rydw i yn mynd i droi at y rheini nawr—rŷm ni wedi cydnabod hynny, ac rŷm ni, fel y buasai rheoleiddiwr da yn gwneud, yn dweud, 'Reit, rŷm ni'n adnabod problem. Gad i ni gydgerdded a thrial ffeindio datrysiadau.'

Ms Huws: If I could just start, I do think that the standards around digital expectations are new and challenging, and we recognise that, because this is a journey that we are all undertaking, be it local authorities or businesses. As a result of that—and I will turn to these now—we recognise this, and, as any good regulator would do, we are saying, 'We've identified a problem. Let's take this journey together and find resolutions together.'

11:15

[224] **Ms Price:** Wel, mae yna ddau beth. Mae gennym ni bethau rydym ni wedi'i ddysgu am gyfryngau cymdeithasol. Mae gennym ni hefyd ddarn gwaith rydym ni'n ei wneud efo cofnodi dewis iaith, ac, os gwnaf i hwnnw yn gyntaf, efallai y gwneith Guto sôn wedyn am y cyfryngau cymdeithasol.

[225] **Ms Price:** Well, there are two issues. There's what we've learnt about social media. We've also got a piece of work that we're looking at in registering language of choice. I'll do that first and then Guto will come in on social media.

[226] Un o'r pethau rydym ni'n ei weld sydd wedi bod yn rhwystr neu'n broblem i sefydliadau oedd yr angen i gofnodi dewis iaith. Mae yna safon benodol lle mae angen cynnig a

One of the issues that we've seen that has been a barrier or a problem for organisations was the requirement to register the language of choice. There is a specific standard

chanfod beth ydy'r dewis, cofnodi a rhannu ar draws y sefydliad y dewis yna, ac o'r pwynt hwnnw ymlaen parhau yn yr iaith o'u dewis. Ond nid pawb oedd efo systemau *customer relationship management* neu roedd problemau rhannu o adran i adran ac yn y blaen. Rydym ni wedi dewis rhoi amser ac adnoddau i mewn i edrych ar y broblem yma.

where there is a need to offer and find out what the choice is and register and share that across the organisation, and, from that point forward, continue in that language of choice. But not everybody had customer relationship management systems, or there were problems of sharing between departments. We've chosen to give time and resource to looking at this.

[227] Rydym ni'n gweithio efo Socitm efo rhai sefydliadau. Mae rhai wedi dod i ddatrysiadau lleol trwy fuddsoddi a thynnu adrannau i mewn, ond yn fwy cyffredinol rydw i'n meddwl ein bod ni wedi gweld newid agwedd o'i weld o fel problem i'w weld o fel cyfle, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae yna niferoedd llai. Un o'r pethau sydd wedi cael ei awgrymu gan rai o'r awdurdodau lleol ydy y bydden nhw'n dymuno, o bosib, dros amser, ein gweld ni'n cael un cyfrif dinesydd. Yn yr Alban, mae gennych chi myaccount, lle mae'r Aeleg i mewn yn y dechnoleg o'r cychwyn, a'ch bod chi'n gallu mynd at wasanaeth efo'r un cyfrif yma—dim ots pa sefydliad, ac maen nhw'n ychwanegu sefydliadau dros amser—ac mae hwnnw mewn bodolaeth ers 2014. Felly, rydw i'n meddwl bod yn rhaid i ni weithio efo nhw i weld a oes modd cael datrysiadau dros amser, ac maen nhw'n werth eu gwneud, achos mae'r budd o ran tynnu costau i lawr dros amser, eu bod nhw'n gallu teilwra gwasanaethau i'r rhai sydd eu

We're working with Socitm with some organisations. Some have found local answers by investing and bringing departments in, but on a more general level we've seen a change of attitude, from seeing it as a problem to seeing it as an opportunity, in particular in areas where there are fewer numbers, and I think one of the things that's been suggested by local authorities is that they would wish, possibly, over time, to see us having one citizen's account. In Scotland, you have myaccount, where Gaelic is in the technology from the beginning, and you can go to a service with this one account—it doesn't matter what organisation, and they are adding organisations over time—and that has existed since 2014. So, I think we have to work with them to see if there's a way of finding a resolution to this over time, and they're worth doing, because the benefit in terms of bringing costs down over time, and that they can tailor these services to people who need them, is worth the time in working on this kind of aspect, and

hangen, yn werth yr amser yn I'm very keen to continue to see what
gweithio ar y math yma o beth. Rydw we can do.
i'n awyddus iawn i barhau i weld beth
y gallwn ni ei wneud.

[228] **Lee Waters:** In terms of online provision, do you make a distinction between static content—so, you may have a website where it just doesn't change so providing it bilingually should be fairly straightforward—and then more dynamic content that may be updated regularly, particularly in social media, where it may be more resource intensive to provide and keep that up to date?

[229] **Ms Price:** A wyt ti eisiau mynd **Ms Price:** Do you want to take that
ar ôl hynny, Guto? point, Guto?

[230] **Mr Dafydd:** Nid ydy'r safonau **Mr Dafydd:** The standards don't draw
yn tynnu gwahaniaeth yn y fanna. Y a distinction there. The requirement
gofyniad efo gwefannau ac efo'r with websites and social media is
cyfryngau cymdeithasol ydy peidio â that we shouldn't treat the Welsh
thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r language less favourably than the
Saesneg. Rydw i wedi sôn eisoes am English language. I've already
wefannau ac, fel roeddech chi'n ei mentioned websites and, as you
awgrymu, mae cynnwys statig yn suggested, static content tends to be
tueddu i fod yn well na chynnwys better than content that's regularly
sy'n cael ei ddiweddarau yn aml. updated.

[231] O ran cyfryngau cymdeithasol, In terms of social media, then, a
wedyn, gofyniad nad oedd yn rhan o requirement that wasn't part of
gynlluniau iaith at ei gilydd, fe language schemes generally
wnaethom ni adolygu hwn reit ar speaking, we looked at this at the
ddechrau'r cyfnod adrodd, felly y very beginning of the reporting
buaswn i'n gobeithio gweld gwelliant period, so I would hope to see
erbyn hyn, ond roedd yr ystadegau improvement by this point, but the
yn y fanna yn eithaf siomedig: 23 y stats there were quite disappointing:
cant o gyfrifon Twitter a oedd yn 23 per cent of Twitter accounts
darparu gwasanaeth cyfartal yn y provided an equal service in both
ddwy iaith. Eleni, rydym ni'n edrych languages. This year, we are looking
ar fath arall o wasanaeth digidol, at another digital service, self-service
peiriannau hunanwasanaeth. Mae machines. That's an area where we
hwnnw'n faes lle rydym ni'n awyddus are eager to see improvement,
i weld gwelliant, oherwydd rydym because we are aware of this shift in

ni'n ymwybodol o'r *shift* yma o ran sut mae sefydliadau yn darparu gwasanaeth. Maen nhw eisiau ei wneud o efo cyn lleied o adnoddau a phosib, yn amlwg. Felly, fe fyddwn ni'n edrych ymlaen at weld beth fydd canlyniadau'r arolwg hwnnw.

terms of how organisations provide services. They want to do it in a resource efficient manner, and obviously we will be looking forward to seeing the results of those surveys.

[232] Ond mae yna lefydd lle mae sefydliadau wedi defnyddio technoleg gwybodaeth yn greadigol er mwyn gwella gwasanaeth. Yn edrych ar y ffôn, er enghraifft, roeddem ni'n gweld cynnydd mawr iawn rhwng 2015–16 ac 2016–17 o ran galwadau ffôn yn cael eu hateb yn awtomatig a bod y bobl sy'n dymuno cael y gwasanaeth Cymraeg yn cael y cynnig yna yn rhagweithiol, bod y cyfarchiad yn Gymraeg oherwydd bod hwnnw'n cael ei wneud drwy wasanaeth awtomatig. Mae honno'n ffordd fwy effeithlon i sefydliadau weithio ac mae'n eu helpu nhw i gydymffurfio.

But there are areas where organisations have used IT in a creative way in order to improve services. If you look at the telephone, for example, we saw a huge increase between 2015–16 and 2016–17 in terms of phone calls answered automatically and that people wanting a Welsh language service would be given that proactive offer, that that greeting was available in Welsh because it was an automated service. That's a more effective way for organisations to work and it helps them comply with standards.

[233] **Lee Waters:** Can I just take you back to your point on social media in particular? Is it your expectation that organisations covered by the standards shouldn't be tweeting in English only?

[234] **Ms Huws:** A gaf i ateb hwnnw? Dyna mae'r safon yn ei ddweud: na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Ond un maes lle mae hwn wedi codi trafodaethau—a thrafodaethau sy'n parhau—yw'r heddluoedd, wrth gwrs, sydd yn defnyddio trydar yn aml i gysylltu'n gymunedol neu i gysylltu mewn argyfwng. Wel, mae sefyllfa argyfwng un cael ei heithrio o'r safonau. Mae hynny'n glir o ran y safonau. Ond

Ms Huws: If I could respond to that, that's what the standard says: the Welsh language should be treated no less favourably than the English language, but one area where this has arisen—and these are ongoing discussions—is the police forces, of course, who use Twitter very often to engage the community or in times of crisis. But that is exempt from the standards, in terms of urgent matters. That is clear in terms of the

mae yna drafodaethau diddorol iawn yn digwydd ar hyn o bryd ynglŷn â sut mae'r heddluoedd, sydd yn awyddus i drydar yn ddwyieithog, yn datblygu'r gallu i wneud hynny. Un peth maen nhw'n ei wneud fel heddluoedd yw edrych ar beth yw math y negeseuon sydd yn mynd allan. Wel, un math o negeseuon sy'n tueddu i fynd allan yn rheolaidd yw, 'Mae yna gar wedi'i barcio mewn lle anghywir'. So, i gael cyfieithiadau safonol ar gyfer sefyllfa fel yna, ac mae'r heddluoedd—mae Dyfed-Powys yn arbennig yn edrych ar greu pecyn o drydariadau y gallai heddw eu defnyddio wrth iddo fo neu wrth iddi hi fod yn cerdded o gwmpas. Rŷm ni'n croesawu hynny ac yn gweithio gyda nhw i ddatblygu'r math yna o sefyllfa. Mae modd wedyn iddyn nhw rannu hwnnw gyda'r gwasanaethau achub eraill. So, maen nhw'n gweithio ar y cyd i ffeindio ffyrdd i oresgyn beth sydd yn broblem yn y lle cyntaf, ond i ddatblygu'r dechnoleg a datblygu galluoedd.

standards. But there are interesting discussions in terms of how the police, who are eager to tweet bilingually, develop the capacity to do that. One thing that they do as police forces is to look at the kinds of messages conveyed. Well, it's the same kind of message that they send out regularly—there's a car that's been parked in the wrong place, for example. So, you could have standard translations for such circumstances, and the police forces—Dyfed-Powys in particular are looking at creating a package of tweets that a police officer could use during their working day. We welcome that, and we are working with them in order to develop those kinds of templates, and then they can share that with the other emergency services. So, they are working jointly to find ways of overcoming what is initially a problem, but to develop technologies and abilities in those areas.

[235] **Lee Waters:** I'm just thinking in practical terms, I'm not sure: is Arriva trains, for example, covered by the standards?

[236] **Ms Huws:** No.

[237] **Lee Waters:** Well, just to take them as an example, they've begun to use social media in quite a good way—bad start, caught up—and so they will communicate with passengers who've got some kind of complaint well, but they'll do it in English. Now, just to take that as an example of a public service provision, it would seem to me that, if we're going to insist that all communications are done bilingually at all times, that may well constrain them from using this new form of communicating in a dynamic and lively

way.

[238] **Sian Gwenllian:** Jest pwynt o wybodaeth, maen nhw'n fy ateb i yn y Gymraeg. Mae Arriva—pan fyddaf i'n trydar cwyn, rydw i'n cael ateb I get a response in Welsh, which is—. Cymraeg, sydd yn—.

[239] **Lee Waters:** And that's excellent, and that's appropriate if you're responding in Welsh, but if you're responding in English—. If we were to require them to respond bilingually, as an example, if you were to apply that to other organisations—. I'm just trying to get a sense of how realistically we're thinking about how a Twitter policy might work, for example, in organisations that are covered by the standards.

[240] **Ms Price:** Wel, mae'r safonau wedi'u gosod gan y Llywodraeth, ac maen nhw'n cael eu cymeradwyo gan y Cynulliad erbyn y pwynt maen nhw'n cyrraedd y comisiynydd i ni eu gosod nhw. Nid ydw i'n meddwl bod gennym ni'r awdurdod mewn ffordd i newid y safon. Rydym ni'n gallu amrywio neu newid y diwrnod gosod, ond nid oes gennym ni fel swyddogion yr awdurdod i newid beth ydy'r gofyniad. Mae'n anodd i ni drin a thrafod efo chi, mewn ffordd. Mae'r cod ymarfer, efallai, yn rhywle lle gallem ni ddelio maes o law â phethau. Rydym ni yn gwneud—efo safonau newydd yn enwedig, rydym ni wedi rhoi cyngor nawr ac yn y man lle mae pobl wedi cael trafferthion dehongli, ac yn rhoi cyngor er mwyn egluro yn fwy cyffredinol beth mae'r safon yn gofyn amdano.

Ms Price: Well, the standards have been set by the Government, and they're approved by the Assembly by the point that they get to the commissioner to implement them. I don't think we have the authority, in a way, to change the standards. We can vary or we can change the date of imposition, but we don't have the authority to change what the requirement is. So, it's difficult for us to discuss with you, in a way. The code of practice, perhaps, is somewhere where we could deal with issues. With new standards in particular we have provided advice now and again where people have had difficulty interpreting them, and we have provided advice in general explaining what the standard requires.

[241] **Ms Huws:** Rydw i'n credu, fel rŷm ni wedi bod yn pwysleisio, rheoleiddio er mwyn gwella a

Ms Huws: I think, as we've emphasised, regulating for improvement and progress is what's

chynnydd sydd eu hangen. A dyna le mae'r sefydliadau, rydw i'n credu, wedi gweld ac wedi profi newid diwylliant. Achos rydw i wedi sôn am yr heddlu, gwnaf sôn amdany'n nhw eto: maen nhw'n ei weld e fel cyfle i gyrraedd mwy o gynulleidfa mewn ffordd effeithiol, trwy drydar yn y ddwy iaith. Mae Heddlu Gwent, er enghraifft, yn awyddus iawn, iawn i ddatblygu'r gallu yma ac yn gweld y safonau fel man cychwyn i wella'r gwasanaeth.

what's required. And I think that's where the organisations have seen and experienced culture change. I've mentioned the police forces, and I'll do so again: they see it as an opportunity to reach a larger audience in an effective way through tweeting in both languages. Gwent Police, for example, are very eager to develop this capacity. They see the standards as a starting point in order to improve services.

[242] So, felly, rydw i'n credu bod technoleg gwybodaeth yn heriol, ond mae'n gallu cynnig atebion hefyd wrth ein bod ni'n symud ymlaen. Ac mae hwn yn faes sy'n codi mewn gwledydd eraill lle mae yna fwy nag un iaith. Mae'n digwydd ar draws y byd. Mae'r un trafodaethau yn digwydd yn Canada ynglŷn â thrydar mewn dwy iaith, ac felly rydw i'n credu y gallem ni ddysgu o hynny, ond gallem ni arwain mewn lot o lefydd hefyd.

So, I think that IT is challenging, but it also can provide solutions as we move forward. This is an issue that arises in other nations where there is more than one language. It happens across the world. The same discussions are happening in Canada in terms of tweeting in both languages, and we can learn lessons from that, but we can lead in a number of circumstances too.

[243] **Lee Waters:** Grêt, diolch.

Lee Waters: Great, thanks.

[244] **Bethan Jenkins:** Sian Gwenllian.

[245] **Sian Gwenllian:** Jest ar y pwynt yna, rydw i'n meddwl mai'r pwynt penodol oedd: os ydy rhywun yn trydar yn uniongyrchol yn Saesneg, mae rhywun yn cael ateb uniongyrchol yn ôl yn Saesneg. Nid oes dim angen i'r ateb yna fod yn ddwyieithog o dan y safonau, oherwydd dewis iaith ydy o. Os ydw

Sian Gwenllian: Just on that point, I think the specific point was that, if somebody is tweeting directly in English, one has an answer directly back in English. There is no need for that answer to be bilingual under the standards, because it is a choice of language. If I choose to tweet Arriva a message saying, 'There is no buffet

i'n dewis trydar neges i Arriva yn dweud, 'Does dim *buffet* ar y trê'n', sy'n digwydd yn aml, rydw i'n cael ateb yn ôl yn dweud, 'Gwnawn ni edrych i mewn iddo fo'. Nid oes dim rhaid iddyn nhw ateb yn ôl yn y ddwy iaith, os ydy—. Mae o'n fater o ddewis iaith. Felly, nid yw hynny yn broblem, nid ydw i'n meddwl.

[246] **Mr Dafydd:** Y gofyniad ydy peidio â thrin Cymraeg yn llai ffafriol na Saesneg. Felly, os ydych chi'n trin y ddwy iaith yr un peth, fel rydych chi'n ei ddisgrifio yn fanna, mae hynny'n iawn. Ond rydw i'n meddwl eich bod chi'n hollol gywir i fod yn tynnu sylw at Twitter fel ffordd o ddarparu gwasanaeth rheng flaen rwan. Nid ydych chi'n gallu jest ei weld fel modd o hyrwyddo ac rwy'n meddwl ei bod yn briodol i'w ystyried fel y buasem ni'n ystyried gwasanaethau eraill rheng flaen pwysig drwy gyfryngau traddodiadol.

[247] Un peth fuaswn i'n ei ddweud ydy yn y gweithdai rydym ni wedi bod yn rhan ohonyn nhw, mae wedi bod yn wych gweld sefydliadau yn ffeindio ffyrdd arloesol o ddatrys problemau. Rwy'n meddwl am un corff, er enghraifft, a oedd wedi cael problem o ran sut roedden nhw'n darparu gwasanaeth *end-to-end* yn Gymraeg, a chael yr arbenigwyr i allu ymateb i ymholiad yn llawn yn Gymraeg. Beth maen nhw wedi wneud ydy edrych ar sut maen nhw yn gweithredu yn gyffredinol o ran eu polisi nhw o ran ymholiadau. Beth

on the train', which happens regularly, I have an answer back saying, 'We'll look into it'. There is no need for them to answer back in both languages, if—. It's a matter of language choice, so that is not a problem, I wouldn't think.

Mr Dafydd: The requirement is not to treat Welsh less favourably than English. So, if you treat both languages the same, as you've described there, that's fine. I think you're quite correct to draw attention to Twitter as a means of providing a front-line service. You can't just see it as a way of promoting and I think it's appropriate to consider it as we'd consider other important front-line services that are provided in a traditional manner.

One thing I would say is that in the workshops we've been part of, it has been great to see organisations finding innovative ways of solving problems. I'm thinking of one organisation, for example, that had a problem in terms of how they were providing an end-to-end service through the medium of Welsh, and getting experts to respond to inquiries in full through the medium of Welsh. What they've done is look at how they operate generally in terms of their inquiry policy, and what they do is train the people who

maen nhw yn ei wneud ydy hyfforddi y bobl sy'n derbyn yr alwad yn y lle cyntaf yn y ganolfan alwadau neu yn y dderbynfa fel eu bod nhw yn gallu ymateb, erbyn hyn, i 70 y cant o ymholiadau ar y cyswllt cyntaf. Nid yw hynny jest yn eu galluogi nhw i gydymffurfio; mae o yn cynnig gwerth am arian ac mae'n wasanaeth gwell i'r cwsmer.

receive the call in the first place in the call centre or in the reception, so that they can now respond to 70 per cent of calls at that first initial contact. It doesn't just enable them to comply; it provides value for money and provides a better service for the customer.

[248] **Bethan Jenkins:** Oherwydd ein bod wedi mynd dros amser, rydym yn mynd i gael y cwestiwn olaf gan Dawn Bowden heddiw. Diolch.

Bethan Jenkins: We've gone over time, and we're going to have a final question from Dawn Bowden today. Thank you.

[249] **Dawn Bowden:** Thank you, Chair. Actually, I think a lot of it you've already answered in terms of behavioural change, but I wanted to just focus on one particular aspect. You've talked about the really good work that's happening, cultural change is taking place in a lot of organisations, but what we do know as a matter of fact is there are still lots of organisations out there that are openly hostile to the language, and will do what they have to do legally, but that doesn't produce cultural change. So, what I'm interested in is what work you are doing with those, because you must know who they are as well as I do. So, what work are you doing specifically with those very hostile organisations to shift that culture?

[250] **Ms Price:** Rydym wedi dewis amryfal dechnegau. Mi fuaswn i'n dweud, yn gyntaf, fel datganiad pendant o ran rheoleiddio, rydym ni eisiau cael traw effaith—cynnydd yn y defnydd, hybu'r Gymraeg—ac felly mae bob peth rydym ni yn ei wneud rydym yn ei wneud er mwyn cyflawni'r nod, nid er mwyn tic yn y bocs cydymffurfiaeth. Mae gennym ni amcanion eang. Felly, yn sicr, rydym ni yn mynd i drafod efo sefydliadau. Rydym yn cynnal y digwyddiadau yma i addysgu a chydweithio a datrys

Ms Price: We use a whole host of techniques. I would say, first of all, as a definitive statement in terms of regulation, we want to have an impact—an increase in usage, promoting the Welsh language—and therefore everything that we do we do in order to achieve that aim, rather than to put a tick in the compliance box. We have broad-ranging objectives. Therefore, certainly, we do discuss issues with organisations. We hold these events to educate, collaborate and find

problemau. Rydym yn gweithio efo defnyddwyr hefyd, ac rwy'n meddwl bod hyn yn rhan o'r ateb. Rydym yn mynd allan ac rydym yn eistedd lawr efo pobl i ddeall beth ydy'r trafferthion ansawdd, a thrafod efo sefydliadau a bwydo hyn yn ôl fel bod pobl yn meddwl am bwysigrwydd y gwaith a ddim yn ei weld o jest fel deddfwriaeth, ond eu bod nhw'n deall bod yna bobl yn rhan o'r darlun. Rydym yn trio cynorthwyo drwy dynnu llyfrgell arferion llwyddiannus, achos weithiau mae'r bobl yma sydd yn anfoddog mewn gwirionedd yn methu neu ddim yn siŵr sut i wneud pethau. Felly, drwy ein bod ni yn trio tynnu arferion llwyddiannus at ei gilydd i'w rhannu, mae hynny yn help.

resolutions to problems. We work also with service users, and I think that's part of the solution. We do get out there and we sit down with people to understand what the difficulties are in terms of quality of services, and then we discuss this with organisations and feed it back so that people do consider the importance of the work, and don't see it simply as a matter of legislative responsibility, but that they understand that there are people who underpin this. We try and provide assistance by drawing together an archive of good practice, because on occasion these people who are reluctant are unable or unsure how to do things. don't know how to provide these services. So, we do try and draw together an archive of good practice that can be shared, and that's of assistance.

[251] Mae'r broses orfodi yna, wrth gwrs. Rydym wedi gwneud ymchwiliadau, ond nid ydym wedi cosbi eto fel comisiynydd. Ac hyd yn oed mewn sefyllfaoedd lle rydym yn gosod camau, mae'r rheini yn rhai i adfer neu addysgu neu ddod â nhw i sefyllfa well. Roedd Meri yn sôn yn y cyfarfod cyntaf y bore yma am y gwersi nofio. Nid wyf yn dweud bod yna unrhyw drafferth efo sefydliadau o ran hynny, ond cynlluniau gweithredu rydym wedi eu gwneud. Rydym wedi mynd atyn nhw. Maen nhw'n paratoi'r cynlluniau. Mae'r trydydd sector wedi dod i mewn i drafod sut mae gwireddu'r

The enforcement process is in place, of course. We have carried out investigations, but as the commissioner we haven't penalised organisations as of yet. And even in situations where we do put steps in place, those are steps in order to restore, to educate or to put them in a better situation. Meri mentioned in your first session this morning swimming lessons. I'm not saying that there is any difficulty with organisations in that regard, but we've put in place action plans. We've approached them. They prepared these plans. We've brought the third sector in to discuss how we can

cynlluniau. Felly, mae'r arweiniad yn ofynnol, rwy'n meddwl, a'n bod ni yna yn gwneud gwaith efo nhw, ond, wrth gwrs, efo'r gorfodi mae'n rhaid iddyn nhw wneud y cynlluniau yna rwan. Felly, pe bai rhaid a lle mae yna, rydym yn defnyddio'r pwerau, ond i fod yn onest, rwyf wedi gweld newid o weld pethau yn ormod a sylweddoli ar ôl ychydig o amser fod yna ffordd o'u gwneud nhw, a'n bod ni yma yn y cyfnod gweithredol yn gweithio efo nhw. Rwy'n meddwl bod y broses o ddod a gosod a chyfnod herio, wel, proses yw e, ond unwaith mae'r diwrnodau gosod yn eu lle, maen nhw'n sylweddoli bod yna dîm yna i wneud gwaith efo nhw. A dros amser, mae'r berthynas yn cryfhau. Ond mae'n amhosibl i ni newid meddylfryd pawb. Mae yna rai sefydliadau sydd yn mynd i fod yn fwy heriol nag eraill, ac rydym ni'n treulio mwy o amser ac yn cymryd mwy o ddiddordeb i drïo newid y rheini dros amser.

deliver those action plans. So, I think leadership is key, and that we are there working with them, but in terms of enforcement they do have to implement those action plans. Therefore, if necessary, we do use the powers that we have to achieve that, but to be honest, I have seen a change from seeing things as being burdensome and then, over a period of time, people realising that there is a way of delivering these, and that we in this operational period can work with them to do that. I think the process of imposing standards and that period of challenge, well, it is a process, but once the standards have been imposed then they realise that there is a team there to work with them. And over time, that relationship strengthens. But it's impossible for us to change everyone's mindset. There are some organisations that will be more challenging than others, and we spend more time and take more of an interest in trying to change those over a period of time.

11:30

[252] **Ms Huws:** Rydym ni'n gweithredu ar sawl lefel. Rwy'n credu hefyd fod gan gomisiynydd rôl; os oes yna benaethiaid sydd yn ei ffeindio'n heriol neu'n llwyr wrthwynebus, rwy'n meddwl bod cyfrifoldeb arnaf i i gynnal sgwrs a thrafodaeth barhaol gyda nhw. Rwy'n credu bod hynny—nid wyf yn honni bod hynny'n gweithio drwy'r adeg,

Ms Huws: We operate at a number of levels. I do think as well that a commissioner has a role; if there are chief officials finding it challenging or are totally hostile, I think there's a responsibility for me to hold a continuing conversation and discussion with them. I don't claim that that works all the time, but I think that engaging, discussing and

ond rwy'n credu bod ymwneud a talking are vital.
siarad a thrafod yn hollbwysig.

[253] **Bethan Jenkins:** Dyna'r cyfnod o amser sydd gyda ni am heddiw. Diolch yn fawr iawn am eich tystiolaeth. Rwy'n siŵr y byddwn ni'n cymryd tystiolaeth gennych chi eto yn y dyfodol, ond diolch yn fawr iawn am ddod i mewn atom ni heddiw.

Bethan Jenkins: Okay, that's our time up for today. Thank you very much for your evidence. I'm sure we will be taking evidence from you again in the future, but thank you for joining us today.

[254] **Ms Huws:** Diolch yn fawr.

Ms Huws: Thank you very much.

Papurau i'w Nodi Papers to Note

[255] **Bethan Jenkins:** Rydym ni'n symud ymlaen at eitem 4—papurau i'w nodi. Mae llythyr gan yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Beth hoffwn i ddweud i gychwyn yw ein bod ni wedi cael llythyr ychwanegol gan Simon Curtis o Equity ar yr un pwnc. Roeddwn i eisiau gofyn i Aelodau a fyddai'n iawn i fi ysgrifennu at Euryng Ogwen Williams i drosglwyddo barn Simon Curtis. Mae'r llythyr yn glir nad yw Equity yn teimlo fel eu bod nhw wedi derbyn hysbysiadau ynglŷn â'r adolygiad o S4C, ac nad ydyn nhw wedi cael cyswllt gan y tîm adolygu, ac nad ydyn nhw'n gwybod at bwy i ddanfôn y wybodaeth. Felly, rwy'n credu bod hynny'n weddol ddifrifol. A oes gan Aelodau unrhyw sylwadau ychwanegol? A ydyn nhw'n hapus i fi wneud hynny? Grêt, diolch yn fawr iawn.

Bethan Jenkins: We move on now to item 4—papers to note. There's a letter from the Department for Digital, Culture, Media and Sport. My initial comments on this is that we've received an additional letter from Simon Curtis from Equity on the same topic. I wanted to ask Members if it would be okay for me to write to Euryng Ogwen Williams to convey the views of Simon Curtis. The letter is clear that Equity don't feel that they have received notifications on the review of S4C, and they haven't been contacted by the review team, and they don't know who to send information to. So, I do think that's quite a grave issue. Do Members have any further comments? Are they happy for me to do that? Excellent, thank you.

**Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i Benderfynu Gwahardd y Cyhoedd
o'r Cyfarfod**

**Motion under Standing Order 17.42 to Resolve to Exclude the Public
from the Meeting**

Cynnig:

Motion:

*bod y pwyllgor yn penderfynu that the committee resolves to
gwahardd y cyhoedd o weddill y exclude the public from the
cyfarfod yn unol â Rheol Sefydlog remainder of the meeting in
17.42(vi).*

*accordance with Standing Order
17.42(vi).*

Cynigiwyd y cynnig.

Motion moved.

[256] **Bethan Jenkins:** Rydym ni'n **Bethan Jenkins:** We move on to item
symud ymlaen at eitem 5—cynnig o 5—a motion under Standing Order
dan Reol Sefydlog 17.42 i wahardd y 17.42 to resolve to exclude the
cyhoedd o weddill y cyfarfod. Hapus? public from the remainder of the
meeting. Happy?

Derbyniwyd y cynnig.

Motion agreed.

Daeth rhan gyhoeddus y cyfarfod i ben am 11:32.

The public part of the meeting ended at 11:32.